# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-17-09 Papur 2: 8 Rhagfyr 2009

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau sydd wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor o'r blaen. Mae llawer o'r wybodaeth hon wedi dod i law ar ffurf gohebiaeth. Os yw hynny'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth i'w gweld fel atodiad i'w papur hwn yn PET(3) 17-09 Papur 2A.

### (i) P-03-187 Diddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y DU yn San Steffan i wneud popeth o fewn ei allu i ddiddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-187.htm

**Cynigiwyd gan:** John Warman

**Nifer y llofnodion:** 23

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 2 Mawrth 2009, 5 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009 and 6 Hydref 2009.

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 17-09 Papur 2A.

### (ii) P-03-204 Atebolrwydd i'r cyhoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ym maes Addysg Uwch

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno system agored a thryloyw er mwyn craffu ar safon y gwasanaeth a ddarperir gan y sector Addysg Uwch yng Nghymru a'r gwerth am arian y mae'r sector yn ei gynnig, ac i sicrhau bod newidiadau i lefelau gwasanaeth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-204.htm

**Cynigiwyd gan:** Trevor Maies

**Nifer y llofnodion:** 13

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 17-09 Papur 2A.

### (iii) P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymchwilio i sut i ddarparu cymorth a gwybodaeth effeithiol i bobl yng Nghymru sy'n chwilio am waith, hyfforddiant neu sy'n ceisio cychwyn menter fusnes yn lleol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-207.htm

**Cynigiwyd gan:** Pwyllgor Materion Cymunedol Cyngor Tref Mynwy

**Nifer y llofnodion:** 286

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 31 Mawrth 2009, 19 Mai 2009, 23 Mehefin 2009, 7 Gorffennaf 2009, 22 Medi 2009 a 10 Tachwedd 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Ganolfan Byd Gwaith, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 17-09

Papur 2A.

**(iv) P-03-215 Gwahardd digwyddiadau gweleidyddol mewn ysgolion**

## Geiriad y ddeiseb

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog llywodraeth Cymru i sicrhau bod sefydliadau gwleidyddol, yn cynnwys sefydliadau ieuenctid cyswllt neu gysylltiol yn cael eu gwahardd rhag trefnu digwyddiadau ac ymgysylltu â phlant heb ganiatâd penodol gan eu rhieni, mewn unrhyw adeilad ysgol na digwyddiad gan ysgol. Y gwaharddiad i fod yn gymwys i bob plentyn a pherson ifanc sy'n mynychu ysgol. Pan fo angen bod yn agored i sefydliadau gwleidyddol am resymau'n ymwneud â'r cwricwlwm, dylid cael caniatâd penodol gan rieni cyn y digwyddiad.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-215.htm

**Cynigiwyd gan:** John Tyler

**Nifer y llofnodion:** 19

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 17-09 Papur 2A.

## (v) P-03-219 Fferyllfeydd yn y Barri

## Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i achub ein fferyllfeydd stryd fawr lleol. Ein bwriad, wrth gyflwyno'r ddeiseb hon, yw dangos anghysonderau cyfredol y system bresennol o 'gymdogaethau' fel ag y maent mewn perthynas ag ail-leoli fferyllfeydd yng Nghymru.Ni chaniateir i unrhyw fferyllfa ail-leoli ar raddfa fach fel y diffinnir yn Rheoliadau Fferyllfeydd 1992 oni bai ei bod o fewn y gymdogaeth a ddiffinnir

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-219.htm

**Cynigiwyd gan:** Aneurin Evans Chemists Ltd. a Judith Evans Pharmacies

**Nifer y llofnodion:** 3000+

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 23 Mehefin 2009 a 6 Hydref 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3)-17-09 Papur 2A.

**(vi) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni**

## Geiriad y ddeiseb

Deiseb at Gynulliad Cenedlaethol Cymru:Er mwyn i gerddwyr allu cerdded yn ddiogel, teimlwn ei bod yn hanfodol bod y terfyn cyflymder o 40 mya ar yr A40 rhwng cylchfan Hardwick a Ffordd Plas Derwen yn cael ei ostwng i o leiaf 30 mya.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-220.htm

**Cynigiwyd gan:** Y Cynghorydd Maureen Powell

**Nifer y llofnodion:** 220

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009 22 Medi 2009 a 10 Tachwedd 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Mae'r Canllawiau ar Bennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru wedi'u cyhoeddi ac maent i'w gweld os ewch i: h

ttp://cymru.gov.uk/docs/det/publications/091105speedlimitguidelinesen.pdf.

## (vii) P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre

## Geiriad y ddeiseb

Oherwydd y lefel gynyddol o draffig, yn enwedig cerbydau nwyddau trwm, ar yr A40 ac oherwydd y ddarpariaeth annigonnol o balmentydd a chroesfannau cerddwyr diogel, a gydnabyddir gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd drwy ymchwil â gyflwawnwyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella diogelwch ar y ffordd ym mhentre Llanddewi Felffre, Arberth, Sir Benfro, drwy roi'r mesurau a ganlyn ar waith, a hynny ar fyrder:

Gwella'r palmant annigonol ar hyd ochr ddeheuol yr A40 rhwng Llandaff Row a phen dwyreiniol y pentref i sicrhau ei fod yn boddhau safonau diogewlch presenol, a'i fod yn ddigon llydan i gael ei ddefnyddio'n ddiogel gan gerddwyr, cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn gan roi ystyriaeth i'r ffaith bod cerbydau nwyddau trwm yn gyrru heibio'n agos ac yn aml yn gyrru yn gyflymach na'r terfyn cyflymder presennol o 40 mya.

Gosod camerâu cyflymdra yn nwyrain ac yng ngorllewin y pentref.

Defnyddio system drydanol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer arwyddion i groesi'r ffordd er mwyn darparu goleuadau rhybudd sy'n fflachio ar adegau pan fydd plant yn croesi'r A40 i ddal eu bws ysgol.

Gosod mesurau i ostegu traffig bob ochr i'r pentref ac ar gyffyrdd i bwysleisio'r angen i arafu.

Gostwng y terfyn cyflymder i 30mya.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-240.htm

**Cynigiwyd gan:** Cyngor Cymuned Llanddewi Felffre

**Nifer y llofnodion:** 154

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 22 Medi 2009 a 10 Tachwedd 2009

### Y sefyllfa ddiweddaraf: Mae'r Canllawiau ar Bennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru wedi'u cyhoeddi ac maent i'w gweld os ewch i h

ttp://cymru.gov.uk/docs/det/publications/091105speedlimitguidelinesen.pdf

### (viii) P-03-236 Siarter i wyrion ac wyresau

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Siarter i Wyrion ac Wyresau ac i wneud y Siarter yn orfodol i weithwyr proffesiynol a gyflogir i warchod lles plant.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-236.htm

**Cynigiwyd gan:** Grandparents Apart Wales

**Nifer y llofnodion:** 19

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 6 Hydref 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 17-09 Papur 2A.

### (ix) P-03-253 Mabwysiadu carthffosydd preifat (trigolion Sir Gaerfyrddin)

### Geiriad y ddeiseb

Mae deiseb trigolion Sir Gaerfyrddin yn gofyn i Gynulliad Cymru sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyflymu ei thrafodaethau â Dwr Cymru ac yn cytuno ar y dyddiad cynharaf posibl i garthffosydd preifat ar ystadau tai presennol gael eu mabwysiadu gan Ddŵr Cymru a bod carthffosydd ar ddatblygiadau yn y dyfodol yn cael eu mabwysiadu yn yr un modd.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-253.htm

**Cynigiwyd gan:** Tracy Thomas

**Nifer y llofnodion:** 260

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 20 Hydref 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 17-09 Papur 2A.

### (x) P-03-255 Darpariaeth ar gyfer y rhai sydd ag anghenion addysg arbennig mewn ysgolion prif ffrwd

### Geiriad y ddeiseb

Hoffem ni yn Ysgol Gyfun Sant Julian pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried gwarchod darpariaeth addysg arbennig o fewn ysgolion prif ffrwd yng Nghymru.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-255.htm

**Cynigiwyd gan:** Disgyblion yr Uned Addysg Arbennig yn Ysgol Sant Julian, Casnewydd

**Nifer y llofnodion:** 14

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 10 Tachwedd 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 17-09 Papur 2A

### (xi) P-03-262 Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd ac i edrych pa mor ymarferol fyddai i Gymru gael Sefydliad Heddwch i edrych ar heddwch a hawliau dynol, tebyg i'r sefydliadau a gefnogir gan lywodraethau gwladwriaethau yn Fflandrys, Catalonia a mannau eraill yn Ewrop.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-262.htm

**Cynigiwyd gan:** Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol, Cymdeithas y Cymod, Cynefin y Werin ac CND Cymru

**Nifer y llofnodion:** 1525

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 10 Tachwedd 2009

**Y sefyllfa ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif weinidog ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 17-09 Papur 2A

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Rhagfyr 2009**